**CABINET**
**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Cabinet a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 17 Gorffennaf 2023 am 1pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae'r manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr R Waters, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr A Stone, Pennaeth Materion Rheoli Perygl Llifogydd a Phrosiectau Strategol
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr G Roberts, Rheolwr Trafnidiaeth Integredig

## 25 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

Roedd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE wedi datgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 9 ar yr agenda (Cronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd). "Fi yw Cadeirydd Cronfa Buddsoddi mewn Tai'r Fargen Ddinesig."

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Trafnidiaeth, Gorfodi a Buddsoddi Strategol wedi datgan buddiant personol a buddiant ariannol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda (Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited – Swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor). "Mae'r adroddiad yn cyfeirio at fy swydd i".

Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen wedi datgan buddiant personol a buddiant ariannol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda (Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited – Swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor). "Rydw i'n un o Gyfarwyddwyr Amgen."

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella wedi datgan buddiant personol a buddiant ariannol mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda (Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited – Swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor). "Rydw i'n un o Gyfarwyddwyr Amgen."

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi datgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 10 ar yr agenda (Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited – Swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor). "Rydw i'n Aelod o'r Bwrdd"; a buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr agenda (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol). "Rydw i'n Aelod o Grŵp Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol".

**26 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**27 Rhaglen Waith y Cabinet**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod Blwyddyn 2023-2024 y Cyngor.

Atgoffwyd yr Aelodau bod rhaglen waith y Cabinet wedi cael ei thrafod gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 y Cyngor yn ystod ei gyfarfod ar 24 Mai 2023, a hynny i lywio rhaglen waith y Pwyllgorau Craffu unigol. Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y bydd rhaglen waith wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o'i ddiweddariad chwarterol.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi nodi'r diwygiadau sydd i'w gweld yn y rhaglen ddiwygiedig, ac roedd hi'n fodlon bod Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu wedi cael gwybod am y newidiadau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen yn eu rhaglenni gwaith eu hunain.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 (gan addasu'n briodol yn ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**28 Rhag-graffu: Adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wedi rhannu adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn dilyn y gwaith rhag-graffu a gafodd ei gynnal mewn perthynas ag adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn ystod ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2023.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi rhoi trosolwg i'r Cabinet o brosesau a gweithdrefnau Estyn ar gyfer arolygu'r Awdurdod Lleol,

yn ogystal â'r cryfderau a'r meysydd datblygu ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg sy'n deillio o arolwg diweddaraf Estyn.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i'r swyddogion am y diweddariad, ac roedd e'n falch o nodi bod y meysydd gwella a nodwyd gan Estyn eisoes wedi'u nodi gan yr Awdurdod Lleol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg wedi cefnogi sylwadau'r Arweinydd ac roedd yn falch o nodi'r canfyddiadau cadarnhaol yn adroddiad Estyn. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi manteisio ar y cyfle i ddiolch i garfan Estyn am yr adroddiad teg a chywir; yn ogystal â diolch i'r rheiny oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg a'r Cyfarwyddwr a'r staff am eu gwaith caled parhaus.

Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi ailadrodd y sylwadau uchod gan fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr a'r garfan.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant;
2. Cymeradwyo adroddiad Estyn ar Wasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad B.

## 29 Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Rhannodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybodaeth â'r Cabinet am ddyletswyddau statudol y Cyngor i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a chyfansoddiad CYSAG Rhondda Cynon Taf; rhoddodd wybod bod Adroddiad Blynyddol CYSAG RhCT ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022 bellach ar gael.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg yn hapus i gefnogi'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, gan nodi ei fod yn adlewyrchiad o gylch gorchwyl eang y grŵp a dyletswyddau'r Awdurdod Lleol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi manteisio ar y cyfle i ddiolch i Aelodau'r Grŵp CYSAG am eu gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, a hithau'n Aelod o Grŵp CYSAG, wedi rhoi gwybod bod y Grŵp yn cydweithio'n dda i gyflawni'i amcanion. Ei nod ar hyn o bryd yw gwella'i ymgysylltiad â phobl ifainc.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol 2021-2022.

## 30 Adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor – 31 Mawrth 2023 (Chwarter 4)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyllid a Gwasanaethau Gwella, drosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol wedi nodi bod yr argyfwng costau byw wedi'i gwneud hi'n flwyddyn heriol ar gyfer y gymuned a'r Cyngor. Er hyn, roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi'r Buddsoddiad Cyfalaf gwerth £135miliwn a'r cynnydd cadarnhaol sydd

wedi'i wneud yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Roedd yr Aelod o'r Cabinet hefyd yn falch o'r gwaith y mae Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd y Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor a'r gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo i reoli a lliniaru'r perygl o ddigwyddiadau tywydd eithafol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth a'r garfan am sicrhau bod trefniadau ariannol cadarn ar waith i sicrhau bod gwasanaeth di-dor yn cael ei ddarparu i drigolion RhCT.

Roedd y Dirprwy Arweinydd o blaid yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a nododd fod effaith y pandemig a Storm Dennis yn parhau i gael ei theimlo ledled y Fwrdeistref Sirol. Er gwaethaf y pwysau ariannol, roedd y Dirprwy Arweinydd wedi nodi'r buddsoddiad cadarn a'r trefniadau cydweithio gan fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

Dymunodd yr Arweinydd estyn diolch i'r garfan gyllid gan nodi'r trefniadau rheolaeth ariannol cadarn sydd ar waith mewn perthynas â chyllid grant. Esboniodd yr Arweinydd fod y Cyngor, ar y cyfan, wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau grantiau cyfalaf a grantiau refeniw, ond nododd y gwaith sy'n cael ei gynnal i gyflawni prosiectau gan gydymffurfio â'r rheolau archwilio a chaffael.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cyd-destun gwasanaethau’r Cyngor sydd wrthi'n mynd i'r afael ag effeithiau parhaus cymunedau’n adfer o’r pandemig a’r argyfwng costau byw ledled y DU, sydd ill dau’n cyfrannu at gynnydd o ran y galw am lawer o wasanaethau a phwysau sylweddol ar gostau chwyddiant.

Refeniw

2. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2023 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol).

Cyfalaf

3. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Mawrth 2023 (Adrannau 3a-e o'r Crynodeb Gweithredol).
4. Nodi manylion y Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli’r Trysorlys fel y mae ar 31 Mawrth 2023 (Adran 3f o'r Crynodeb Gweithredol).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

5. Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a - c o grynodeb y Crynodeb Gweithredol).
6. Nodi'r adroddiad cynnydd i wella ymateb tymor byr a thymor hir y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd eithafol (Adran 6 o'r Crynodeb Gweithredol)
7. Nodi'r adroddiad cynnydd mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd (Adran 7 o'r Crynodeb Gweithredol).

**31 Adroddiad sy'n trafod cychwyn ymgynghoriad statudol ffurfiol mewn perthynas ag Adolygiad yr Awdurdod o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor.**

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Trafnidiaeth, Gorfodi a Buddsoddi Strategol wedi rhannu'r newyddion diweddaraf â'r Cabinet mewn perthynas â'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor (Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn flaenorol), yn unol â gofynion Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor wedi sicrhau cyllid i wella mesurau gwrthsefyll llifogydd a byddai'r Strategaeth yn sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu yn y dyfodol.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am eu gwaith caled gan siarad am ei brofiad e yn ystod Storm Dennis 2020. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi siarad am y sefyllfaoedd torcalonnus yn ardaloedd Trehafod a Britannia; a chydnerthedd y cymunedau sydd wedi'u heffeithio. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am ofn y trigolion o ran y posibilrwydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn y dyfodol, ond roedd yn falch o nodi bod y Cyngor yn cyflwyno mesurau i liniaru'r risg.

Adleisiodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau blaenorol am liniaru'r risg, ble bynnag y bo modd, a siaradodd am y cynllun lliniaru llifogydd llwyddiannus a gafodd ei gyflwyno yn ei ward hi, gan bwysleisio bod y cynllun yma wedi tawelu meddwl y gymuned i raddau. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd ei bod hi'n bwysig bod cymunedau'n cael gwybod am gyfrifoldebau'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru, a'r mesurau ataliol cysylltiedig.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cychwyn ymgynghoriad statudol ffurfiol mewn perthynas â Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (Drafft) y Cyngor a'r asesiadau Amgylcheddol (Asesiad Amgylcheddol Strategol) cysylltiedig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yn unol â'r rhaglen waith a gafodd ei chytuno gan y Cabinet ar 15 Mai 2023.

**32 Adnewyddu ac Ailddatblygu Adeiladau Rock Grounds, Aberdâr**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu fanylion cynnig i addasu Adeiladau Rock Grounds, Aberdâr, at ddibenion gwahanol i ddarparu gwesty o ansawdd uchel gyda bwyty, bar a sba; a cheisiodd ganiatâd i gychwyn y broses gaffael ffurfiol ar gyfer partner datblygu er mwyn darparu cynllun o'r fath.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu o blaid y cynnig uchelgeisiol yma. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am yr adroddiad Twristiaeth diweddar, a oedd wedi amlygu diffyg llety ar gyfer twristiaid yn RhCT, yn enwedig yn rhan uchaf y cwm; a Strategaeth Canol Tref Aberdâr a oedd yn amlygu'r angen i greu llety i dwristiaid er budd y rhanbarth cyfan. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn y byddai'r cynnig sy'n cael ei gyflwyno i Aelodau yn ateb y galw yma, gan roi defnydd newydd i adeilad hanesyddol, a hynny er budd y gymuned leol a'r ddarpariaeth i dwristiaid.

Roedd yr Arweinydd o blaid y cynigion gan nodi y byddai'n hyfryd gweld buddsoddiad ar gyfer yr adeilad. Cyfeiriodd yr Arweinydd at fenter unigryw arall, Neuadd Glan-elái (Lanelay Hall), sydd yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref, fel enghraifft o lety llwyddiannus i dwristiaid.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r fframwaith strategol sydd wedi'i ddarparu yn rhan o Strategaeth Adfywio Aberdâr, Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor a Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor, fel sail i'r cynnig i ailddatblygu Adeiladau Rock Grounds yng Nghanol Tref Aberdâr;

2. Trafod y cynigion drafft ar gyfer addasu Adeiladau Rock Grounds, Aberdâr, at ddibenion gwahanol, a'u hadnewyddu, er mwyn darparu

gwesty â bwyty, bar a sba;

3. Bwrw ymlaen â'r cam caffael ffurfiol er mwyn sicrhau partner datblygu i ddarparu gwesty ar y safle, yn amodol ar adroddiadau pellach ar gynnydd y cynllun yn y dyfodol; a

4. Derbyn adroddiad pellach yn dilyn y cam caffael a nodi unrhyw newidiadau i'r syniadau ar gyfer y safle yn dilyn gwaith dichonoldeb pellach gyda'r partner datblygu sydd wedi'i benodi.

**33 Cronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu adroddiad i'r Cabinet sy'n ceisio caniatâd y Cabinet i fwrw ymlaen â'r gwaith sy'n gysylltiedig â Chronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer hen safle Cwm Coking, a hynny fel bod modd manteisio ar y cyllid gwerth £8 miliwn sydd wedi'i sicrhau.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu o'r farn bod y cynnig sy'n cael ei gyflwyno i Aelodau yn gyfle gwych i'r Cyngor agor safle oedd arfer cael ei ystyried yn safle anymarferol o safbwynt masnachol. Nododd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r cynnig yn adfer safle heriol yn ogystal â helpu i gyflawni targed y Cyngor o ran tai, gyda'r posibilrwydd i ddarparu dros 600 o dai newydd.

Pwysleisiodd yr Arweinydd na fyddai modd datblygu'r safle heb y buddsoddiad cyfalaf, gan nodi bod y safle wedi bod yn rhan o broses werthuso Cronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at bryderon sydd wedi'u codi o ran bioamrywiaeth a holodd a fyddai'r mater yma'n cael ei ystyried yn rhan o'r broses. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y byddai bioamrywiaeth yn ystyriaeth allweddol wrth symud ymlaen gyda gwaith adfer y safle ac unrhyw gynlluniau datblygu tai yn y dyfodol.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo am yr eitem yma.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo ac awdurdodi'r Cytundeb rhwng y datblygwr a RhCT er mwyn manteisio ar y cyllid gwerth £8miliwn sydd ar gael gan Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**34 Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited – Swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor**

Ceisiodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd gymeradwyaeth yr Aelodau mewn perthynas â chyflwyno newid i un o Swyddi Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor ar gyfer Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited (y 'Cwmnïau') o ganlyniad i ymddeoliad Mr Roger Waters, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen, sydd ar ddod a'r penderfyniad i ddileu'r swydd yma o strwythur reoli'r Cyngor.

Roedd Aelodau'r Cabinet o blaid yr argymhelliad sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, a manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ddiolch i Gyfarwyddwr y

Gwasanaethau Rheng Flaen am ei waith gwych gan ddymuno pob dymuniad da iddo ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Bydd swydd Cyfarwyddwr Swyddog y Cyngor ar gyfer Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited yn symud o ddeiliad swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen i ddeiliad swydd y Cyfarwyddwr Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Trafnidiaeth o 1 Medi 2023.

**Nodwch -** Ar ôl datgan buddiant personol a buddiant ariannol (Cofnod 25) mewn perthynas â'r eitem yma, gadawodd y Swyddogion canlynol y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais:

- Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Trafnidiaeth, Gorfodi a Buddsoddi Strategol;
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen; a'r
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella

**35 EITEM BRYS - CYNLLUNIAU TEITHIO Â CHYMHORTHDAL AR FYSIAU LEDLED RHONDDA CYNON TAF YN YSTOD BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24**

**Roedd Cadeirydd y cyfarfod o'r farn y dylai adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen gael ei drafod yn unol ag Adran 100(b)4(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel mater brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig h.y. er mwyn cyflwyno'r cynllun arfaethedig yn syth ar 24 Gorffennaf.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno cynllun Uchafswm o £1 am docyn bws un ffordd rhwng 24 Gorffennaf 2023 a 3 Medi 2023 (gan gynnwys y dyddiadau yma) ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac sy'n gorffen o fewn ffiniau Rhondda Cynon Taf. Byddai hyn yn berthnasol i bob cwmni sy'n darparu gwasanaethau bws yn rhan o’r amserlen gyfredol. Byddai hyn yn amodol ar barhad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Bysiau y tu hwnt i 24 Gorffennaf 2023. Roedd yr adroddiad yn ceisio caniatâd i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen er mwyn cyflwyno cynllun uchafswm o £1 am docyn bws un ffordd rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 31 Rhagfyr 2023 (gan gynnwys y dyddiadau yma), ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac sy'n gorffen o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) - yn amodol ar ddeilliannau'r Cynllun yn ystod Gwyliau Haf yr Ysgol a'r cyllid sydd ar gael, gan gyfathrebu â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden. Byddai hyn yn amodol ar barhad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Bysiau y tu hwnt i 24 Gorffennaf 2023; a chymeradwyo cynllun peilot teithio ar fysiau 7 diwrnod yr wythnos am flwyddyn ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr coleg ôl-16 oed sydd â thocyn tymor bysiau cyhoeddus i fynychu'r ysgol neu'r coleg rhwng dydd Llun 4 Medi 2023 a diwedd y flwyddyn academaidd 2023/24 berthnasol.

Roedd yr Arweinydd o blaid yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am y gwaith sydd wedi'i gynnal hyd yn hyn er mwyn cyflwyno'r adroddiad cadarnhaol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai'r cynllun yn arbed trigolion £1.1miliwn a siaradodd am y cynllun blaenorol a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ar gyfer mis Mawrth 2023, a oedd wedi arwain at gynnydd o 7% yn nifer y bobl oedd wedi defnyddio'r gwasanaethau yn ystod y mis dilynol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod

rhywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y cynllun diwethaf, ond roedd yr Arweinydd yn gobeithio y byddai'r tocyn bws am £1 yn lleddfu'r broblem yma, yn ogystal â sicrhau bod yr arian yn mynd ymhellach.

Roedd yr Arweinydd wedi atgoffa Aelodau ei fod e wedi gofyn i swyddogion yn ystod cyfarfod Cyngor diweddar i ystyried y pecynnau cymorth posibl sydd ar gael i drigolion yn ystod yr argyfwng costau byw ac roedd e o'r farn y byddai'r cynllun sy'n cael ei gyflwyno i Aelodau yn cynnig manteision pellach a allai arbed cannoedd o bunnoedd i rai teuluoedd am weddill y flwyddyn.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden wedi cefnogi sylwadau'r Arweinydd gan siarad yn gadarnhaol am lwyddiant y fenter flaenorol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn gobeithio y byddai'r cynllun yn helpu teuluoedd i fwynhau haf sy'n ariannol hyfyw drwy ganiatáu iddyn nhw deithio ledled RhCT ac ymweld ag atyniadau am gost fforddiadwy; a lleihau rhywfaint o'r pwysau sydd ar deuluoedd yn ystod cyfnod y Nadolig.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y byddai caniatâd y Llywydd yn cael ei geisio er mwyn eithrio'r mater yma o'r broses galw i mewn, a hynny er mwyn cyflwyno'r cynllun arfaethedig yn syth ar 24 Gorffennaf.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r cynigion i:

(ii) Cyflwyno cynllun uchafswm o £1 am docyn bws un ffordd rhwng 24 Gorffennaf 2023 a 3 Medi 2023 (gan gynnwys y dyddiadau yma), ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac sy'n gorffen o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Bydd hyn yn amodol ar barhad Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Bysiau y tu hwnt i 24 Gorffennaf 2023.

(iii) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen i gyflwyno cynllun uchafswm o £1 am docyn bws un ffordd rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 31 Rhagfyr 2023 (gan gynnwys y dyddiadau yma), ar gyfer pob taith sy'n dechrau ac sy'n gorffen o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) - yn amodol ar ddeilliannau'r Cynllun yn ystod Gwyliau Haf yr Ysgol a'r cyllid sydd ar gael, gan gyfathrebu â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden. Bydd hyn yn amodol ar barhad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Bysiau y tu hwnt i 24 Gorffennaf 2023.

(i) Cyflwyno cynllun peilot teithio ar fysiau 7 diwrnod yr wythnos am flwyddyn ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr coleg ôl-16 oed sydd â thocyn tymor bysiau cyhoeddus i fynychu'r ysgol neu'r coleg rhwng dydd Llun 4 Medi 2023 a diwedd y flwyddyn academaidd 2023/24 berthnasol.

2. Adolygu deilliannau'r cynlluniau teithio ar fysiau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 a cheisio datblygu mentrau teithio ar fysiau pellach yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, yn amodol ar gyllid.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.10pm**

**Y Cynghorydd A Morgan OBE**
**Cadeirydd.**